© Amgueddfa Cymru

AMGUEDDFA CYMRU




# Traed mewn Cyffion

## Cymru a Chaethwasiaeth

AMGUEDDFA CYMRU

# Traed mewn Cyffion

## Cymru a Chaethwasiaeth

Mae 'Traed mewn Cyffion: Cymru a Chaethwasiaeth' yn edrych ar rôl pobl Cymru o ran cefnogi a gwrthwynebu'r fasnach drawsatlantig mewn Pobl gaeth o Affrica o'r ail ganrif ar bymtheg tan y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

*Rydyn ni'n cydnabod bod rhan fach o'r deunyddiau hanesyddol a ddefnyddir yn yr adnodd hwn yn cynnwys geiriau neu ddelweddau gofidus neu sarhaus. Rydyn ni wedi gwneud y penderfyniad i beidio â dileu na chyfyngu ar gynnwys hanesyddol gan ei fod yn bwysig o ran olrhain ein hanesion amrywiol. Yn hytrach, rydyn ni'n gweithio i nodi a rhoi cyd-destun i unrhyw gynnwys a allai fod yn ofidus neu'n sarhaus.*

AMGUEDDFA CYMRU

# Traed mewn Cyffion

## Cymru a Chaethwasiaeth

### Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 - 5 |
| Galluogi Caethwasiaeth | 10 - 23 |
| Gwrthwynebu Caethwasiaeth | 24 - 34 |

© Amgueddfa Cymru



## *Caethwasiaeth*

*Bod o dan reolaeth lwyr rhywun arall, heb hawliau, rhyddid na dewis.*

Dechreuodd y fasnach drawsatlantig mewn pobl gaeth o Affrica ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg (tua 400 mlynedd yn ôl). Ym 1807, pasiodd Senedd San Steffan Ddeddf i ddiddymu masnachu mewn pobl gaeth, ond dim ond y cam cyntaf mewn ymgyrch hir i ddiddymu'r fasnach oedd hynny.




© Amgueddfa Cymru

▲ *Cafodd y ddelwedd hon o gaethwas yn penlinio gan y crochenydd Josiah Wedgwood ei chomisiynu gan y Gymdeithas Diddymu Caethwasiaeth ym 1788. Daeth yn eicon i fudiadau gwrth-gaethwasiaeth ledled y byd yn ystod y can mlynedd nesaf.*


▼ *Golygfa ramantlyd o bobl gaeth yn torri cansenni siwgr ar blanhigfa Henry De La Beche yn Jamaica, 1824*



© Amgueddfa Cymru


Cafodd ymgyrchoedd i atal y fasnach drawsatlantig mewn pobl gaeth o Affrica eu cychwyn gan bobl Ddu a phobl Wyn dros dri deg mlynedd cyn i'r Ddeddf gael ei phasio. Hyd yn oed ar ôl 1807, ni chafodd pobl gaeth oedd yn byw yn nhrefedigaethau Prydain eu rhyddhau tan 1834. Ac er bod gan lawer o bobl eu rhyddid, byddai llawer o bobl gaeth yn dal i lafurio fel "prentisiaid" am flynyddoedd lawer. Roedd rhai'n ystyried hyn fel parhad o'r fasnach.


Cafodd y fasnach mewn pobl gaeth o Affrica ei sbarduno gan dwf cyfalafiaeth a phrynwriaeth. Yn sgil twf y farchnad Ewropeaidd am gynhyrchion fel tybaco, siwgr a chotwm, datblygodd system economaidd o'r enw'r 'Fasnach Drionglog'. Byddai nwyddau'n cael eu creu ym Mhrydain, yna'u cludo i Affrica a'u defnyddio i brynu pobl gaeth, a fyddai'n cael eu cludo i'r Amerig ac India'r Gorllewin a'u gwerthu, yna byddai'r cynhyrchion roedden nhw'n cael eu gorfodi i'w creu yn cael eu cludo'n ôl i Brydain.





© Amgueddfa Cymru

▲ *Naparima, Trinidad, T.J. & J. Mayer, 1853*


Gogledd America
North America
Tybaco, Cotwm, Siw
Tobacco, Cotton, S
Cefnfor yr
Iwerydd
Atlantic
Ocean
Môr y Caribï
Caribbean Sea
Pobl Gaeth o A
Enslaved Afri
N
E
S
W
De America
South America




▲ *Map o'r 'Fasnach Drionglog' – Mae amcangyfrifon o'r niferoedd yn amrywio'n fawr ond cafodd o leiaf 12 miliwn o Affricanwyr eu cludo dramor drwy rym i fod yn weithwyr llafur caeth.*



**Traed mewn Cyffion**

# Galluogi Caethwasiaeth


Gallai bywyd yn India'r Gorllewin fod yn beryglus ac yn fyr i Affricanwyr ac i Ewropeaid hefyd. Fodd bynnag, gallai pobl wyn uchelgeisiol yn aml wneud llawer o arian a dringo'r ysgol gymdeithasol yn gyflym. Daeth llawer o Gymry yn rhan o'r fasnach mewn pobl gaeth o Affrica drwy wahanol swyddi.




▲ *Medal ymddygiad da – Fe gynhyrchodd Henry De La Beche, a oedd yn berchen ar blanhigfeydd siwgr yn Jamaica, y medalau hyn i annog y bobl gaeth oedd yn gweithio ar ei blanhigfeydd.*


Gwasanaethodd llawer o forwyr o Gymru ar y llongau a oedd yn cludo pobl gaeth, gan gynnwys Thomas Phillips o Aberhonddu. Ef oedd cadlywydd y llong Hannibal.

▼ *Mae pamffled Thomas Phillips yn fanwl ac yn erchyll. Ar ei fordaith teithiodd o Gravesend yn Lloegr i arfordir Gini ac yna i Barbados. *Mae'r darn isod yn cynnwys geiriau hiliol a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod.*


A Journal of a Voyage to

yeſterday in the afternoon I came off with a reſolution to go to ſea Accordingly about ſix in the evening we got up our anchors, and ſet ſail for *Barbadoes*, being forc'd to leave the *Eaſt-India merchant* behind, who could not get ready to ſail in nine or ten days; which time I could not afford to ſtay, in reſpect of the mortality of my negroes, of which two or three died every day, alſo the ſmall quantity of proviſions I had to ſerve for my paſſage to *Barbadoes* We ſtood off E and E. by N. with a ſmall breeze at S. W. till 8, when we had a fine freſh gale at S. ſteering off N. E. N. N. E and N. till 10 o'clock, when we were abreaſt the *Cabras*, then hal'd up N. N. W. and N. W. till 12, at which time it fell ſtark calm, and continued ſo till

Roedd y morwyr yn gweithio'n agos gyda 'Delwyr' neu ryngfasnachwyr oedd wedi'u lleoli yn y caerau masnachu ar arfordir Affrica. Yn eu plith roedd Samuel Davies o Landudoch, Sir Benfro, a oedd yn ddeliwr ar yr Arfordir Aur (Ghana) ym 1736.



*A Journal of a Voyage to*


winds here a[illegible] between the S. and W
S. W. conſtantly, and the current ſets
ſtrong to the N. ſo that ther[illegible] no
plying againſt wind and tide
*Sunday* the 26th. Yeſterday at two in the
evening ſprung up a fine breeze at S. S W.
but ſoon veer'd to W. S. W. we keeping
up W. N. W. and N. W. the wind often
ſhifting a point or two. At noon this day
the iſland of St. *Thomas* being in latitude
00° 10′ N. bore off us S. E. ½ E. diſtant
14 leagues, from which take my depar-
ture for *Barbadoes*, we being then 27 miles
to the N. and 33 miles to the weſt of it,
as appears by the following table, which
I have rather choſe to annex, ſhewing
the courſe of our ſailing every day, than
write every 24 hours work down at large,
which had been tedious, ſince nothing ex-

Mewn llawer o achosion, talwyd am dwf cyflym diwydiant Cymru yn ystod y ddeunawfed ganrif gan elw a ddaeth o ddiwydiannau yn India'r Gorllewin a'r Amerig – diwydiannau a oedd yn dibynnu ar lafur pobl gaeth.

▼ *Porth Penrhyn, Moses Griffith – Buddsoddodd Richard Pennant arian a enillwyd o blanhigfeydd Jamaica i ddatblygu Porth Penrhyn.*



© Amgueddfa Cymru




▼ *Chwarel y Penrhyn, ger Bangor, Alfred Sumners*

© Amgueddfa Cymru

Roedd Richard Pennant (1737-1808) yn berchen ar 8,000 erw o dir yn Jamaica, a oedd yn cael ei weithio gan dros 600 o bobl gaeth. Buddsoddodd yr elw a wnaeth o'r siwgr a'r rỳm, a wnaed gan bobl gaeth, i ariannu ac ehangu chwarel y Penrhyn yng Ngwynedd. Richard Pennant adeiladodd harbwr Porth Penrhyn ym Mangor hefyd. Yn ddiweddarach, ailadeiladodd ei deulu Gastell Penrhyn.

*Gwaith Haearn Cyfarthfa, Penry Williams, 1817* ▼



© Amgueddfa Cymru

Bu Anthony Bacon, masnachwr o Cumberland, yn cludo pobl gaeth o Affrica ar draws India'r Gorllewin a'r Amerig. Fe ddarparodd bobl gaeth i lywodraeth Prydain ar gyfer prosiectau adeiladu hefyd. Ym 1765 buddsoddodd ei elw ym Merthyr Tudful, gan sefydlu Gwaith Haearn Cyfarthfa.

Roedd gefeiliau haearn mewn llefydd fel Basaleg, ger Casnewydd, yn cynhyrchu 'haearn mordaith', sef bariau bach o haearn a fyddai'n cael eu masnachu am bobl gaeth.

Roedd mwyngloddiau copr yn Ynys Môn a gweithfeydd copr yn Abertawe, Penclawdd a Threffynnon ar eu hennill yn fawr. Roedd nwyddau copr a phres yn cynnwys gwrthrychau a elwid yn 'manillas' neu freichledi, oedd yn cael eu defnyddio i brynu pobl gaeth ar arfordir Gorllewin Affrica.



© Amgueddfa Cymru

▲ *Breichled bres o longddrylliad DOURO, 1843 – Yn dibynnu ar y cyfnod, byddai rhwng 10 a 60 o freichledi'n cael eu cyfnewid am berson caeth.*

Yn y canolbarth, roedd y diwydiant gwlân ffyniannus yn cynhyrchu brethyn Cymreig, sef defnydd gwlân trwm a garw. Byddai'r brethyn yn cael ei fasnachu yn Affrica am bobl gaeth a'i ddefnyddio i greu dillad ar gyfer pobl gaeth ar blanhigfeydd yn yr Amerig ac India'r Gorllewin.

▼ *Melin Cynwyd ger Corwen yn Sir Feirionnydd, Paul Sandby, 1771*



© Amgueddfa Cymru

*Bryste, 1854* ▼



© Amgueddfa Cymru

Mae llafur pobl gaeth wedi'i gysylltu'n agos â dyfodiad cyfalafiaeth. Roedd pobl a oedd yn gweithio mewn diwydiant yn ennill cyflogau uwch a dechreuodd y farchnad ar gyfer nwyddau moethus ym Mhrydain dyfu. Y ffordd rataf o gynhyrchu rhai o'r nwyddau hyn oedd defnyddio llafur pobl gaeth.

Deuai'r rhan fwyaf o'r coffi a oedd yn cael ei yfed ym Mhrydain o blanhigfeydd gan ddefnyddio llafur pobl gaeth. Rhwng 1750 a 1820, siwgr oedd y mewnforyn unigol mwyaf i Brydain. Roedd y cyfan ohono bron yn cael ei gynhyrchu yn India'r Gorllewin gan ddefnyddio llafur pobl gaeth.

▼ *Porthladd Lerpwl*



© Amgueddfa Cymru

Erbyn y ddeunawfed ganrif, Bryste a Lerpwl oedd prif borthladdoedd Prydain ar gyfer masnach pobl gaeth. Gan fod y ddwy ddinas mor agos at Gymru, nid yw'n syndod bod llawer o Gymry wedi chwarae rhan yn y fasnach.

Cludodd Jeffrey Jeffreys o Lywel, Sir Frycheiniog, longau'n llawn pobl gaeth i Virginia yn y 1670au a'r 1680au. Daeth â thybaco, siwgr a phren yn ôl i Brydain. Cafodd ei ethol yn 'Gynorthwyydd' (Cyfarwyddwr) y Cwmni Affricanaidd Brenhinol, a oedd yn rhedeg holl fasnach drawsatlantig Prydain mewn pobl gaeth o Affrica rhwng 1663 a 1698.


© Amgueddfa Cymru

▲ *Torrwr Siwgr – Yn wreiddiol, roedd siwgr yn cael ei werthu mewn torthau neu gonau. Byddai'r rhain yn cael eu torri'n ddarnau llai gan ddefnyddio torrwr siwgr. Rhwng 1750 a 1800 siwgr oedd y cynnyrch mwyaf gwerthfawr oedd yn cael ei fewnforio i Brydain.*

Un o'r cynhyrchion ychwanegol fyddai'n gwneud arian i'r planhigfeydd siwgr oedd rỳm. Yn y 1790au, India'r Gorllewin oedd yn derbyn 24% o'r copr a allforiwyd o Brydain, ac roedd 90% ohono'n dod o Gymru. Defnyddiwyd y copr hwn i wneud sosbenni a distyllyron ar gyfer cynhyrchu siwgr a rỳm.




▲ *Gini yn dangos y Brenin William III a'r Frenhines Mary II, a gafodd ei fathu ym 1694 – Gwnaed y darnau arian yn wreiddiol allan o aur a ddygwyd o Gini yng Ngorllewin Affrica.*

▼ *Blwch tybaco, nwydd wedi'i japanio, wedi'i gynhyrchu ym Mhont-y-pŵl, 1749*





© Amgueddfa Cymru

Cynhyrchwyd tybaco, cotwm, indigo (lliw glas), reis a phren caled fel mahogani gan ddefnyddio llafur pobl gaeth. Daeth yr holl gynhyrchion hyn yn nwyddau rhad, hanfodol i bobl gyffredin yn ogystal ag i'r cyfoethog. Gellid dadlau bod cymdeithas defnyddwyr heddiw yn tarddu o fasnach pobl gaeth o Affrica y ddeunawfed ganrif.

## Traed mewn Cyffion

# Gwrthwynebu Caethwasiaeth



## ***Mudiad Diddymu Caethwasiaeth***

*Amrywiaeth o grwpiau, cymdeithasau ac unigolion a oedd i gyd am weld diwedd ar gaethwasiaeth.*

*Cynhalbost cigwain serameg siâp tŵr wedi'i addurno ag argraff medal gwrth-gaethwasiaeth a sawl argraff wedi'i stampio arno.*



© Amgueddfa Cymru

Tyfodd y mudiad diddymu caethwasiaeth ym Mhrydain o'r 'Pwyllgor dros Ddiddymu Masnach Caethweision Affrica' a ffurfiwyd ym 1787. Ei arweinwyr oedd William Wilberforce, Thomas Clarkson a Granville Sharp.

Roedd agwedd y Cymry at yr ymgyrch ‘yn dameidiog ac yn anghyson’. Roedd llawer o bobl yn dibynnu ar fasnachu mewn pobl gaeth am eu bywoliaeth, naill ai’n uniongyrchol neu’n anuniongyrchol. Roedd eraill, yn ymwybodol bod eu landlord lleol yn berchen ar bobl gaeth yn India’r Gorllewin, yn amharod i gondemnio’r fasnach yn gyhoeddus. Doedd llawer mwy o bobl naill ai ddim yn gwybod am bobl gaeth neu ddim yn poeni am bobl a oedd wedi’u caethiwo filoedd o filltiroedd i ffwrdd.



© Amgueddfa Cymru

▲ *Darn o’r cynhalbost cigwain serameg*

Aeth llawer o bobl gyffredin ati'n dawel i gefnogi'r ymgyrch i ddiddymu'r fasnach, gwrthododd rhai brynu siwgr o India'r Gorllewin er enghraifft.

Fodd bynnag, roedd rhai pobl yn llafar iawn ynglŷn â'u gwrthwynebiad i'r fasnach, gan gynnwys y bardd a'r hynafiaethydd Edward Williams (Iolo Morganwg), a Morgan John Rhys, gweinidog gyda'r Bedyddwyr o Lanbradach.

▼ *Roedd Thomas Williams, asiant Mwyngloddiau Copr Parys, Ynys Môn, yn gwrthwynebu diddymu oherwydd roedd yn credu y byddai'n dinistrio'r diwydiant copr.*


© Amgueddfa Cymru


Yn y pen draw, anfonwyd 20 o ddeisebau gan drefi yng Nghymru at Senedd San Steffan yn gofyn am ddiddymu'r fasnach.

Er hynny, roedd y mudiad gwrth-gaethwasiaeth yng Nghymru yn dal i fod ar ei hôl hi o'i gymharu â gweddill Prydain gan fod Lloegr wedi cyflwyno 310 o ddeisebau a'r Alban wedi cyflwyno 187 yn yr un cyfnod.

▼ *Mwyngloddiau Copr Parys, Ynys Môn, 1804*



© Amgueddfa Cymru



# B I L L,

INTITULED,

An ACT for the Abolition of the Slave Trade.

Note.—*The Figures in the Margin denote the Number of the Preſſes in the Ingroſſment.*

WHEREAS the *African* Slave Trade is contrary to the Principles of Juſtice, Humanity, and ſound Policy:

And whereas the Two Houſes of Parliament did, by their Reſolutions of the tenth and twenty-fourth days of June one thouſand eight hundred and ſix, ſeverally reſolve, That they, conſidering the *African* Slave Trade to be contrary to the Principles of Juſtice, Humanity, and ſound Policy, would, with all practicable Expedition, take effectual Meaſures for the Abolition of the ſaid Trade, in ſuch manner, and at ſuch period as might be deemed adviſeable:

Ym 1807, pasiodd Senedd San Steffan ddeddf o'r diwedd i wahardd cludo pobl o Affrica i'r trefedigaethau.


Er ei bod hi'n anghyfreithlon i longau Prydeinig gludo pobl o Affrica i'r Amerig ac India'r Gorllewin ar ôl 1807, roedd hi'n dal yn gyfreithlon bod yn berchen ar bobl gaeth neu eu prynu yn nhrefedigaethau Prydain.

Yng Nghymru, dechreuodd yr ymgyrch dros ddiddymu'n llwyr. Rhwng 1807 a 1834 llofnododd cannoedd o filoedd o bobl ddeisebau a mynd i gyfarfodydd protest.

Aeth Thomas Clarkson, arweinydd y mudiad diddymu, ar daith ledled Cymru ym 1824. Ni chafodd y mudiad gefnogaeth ym mhobman. Yn y gogledd, wynebodd wrthwynebiad cryf gan gefnogwyr pwerus y teulu Pennant.




▲ *Model llechfaen cerfiedig o Gastell Penrhyn – Castell Penrhyn, cartref trawiadol y teulu Pennant yng Nghymru, a adeiladwyd ym 1827 gan ddefnyddio elw o'u hystadau helaeth yn Jamaica.*




▲ *Abaty Nedd gyda glofa yn y blaendir a gwaith mwyndoddi Abaty Nedd yn y pellter, 1805*

Joseph Tregelles Price, rheolwr Gwaith Haearn Abaty Nedd, oedd y grym y tu ôl i'r mudiad gwrth-gaethwasiaeth yn Abertawe a Chastell-nedd. Fel ysgrifennydd y Gymdeithas Gwrth-Gaethwasiaeth, galwodd ar Senedd San Steffan i ddiddymu 'Caethwasiaeth drwy holl Diriogaethau Prydain'.

Yn sicr, chwaraeodd y mudiad diddymu rhan bwysig ym mhenderfyniad llywodraeth Prydain i ryddhau pobl gaeth. Fodd bynnag, does dim amheuaeth bod gwrthsafiad y bobl gaeth eu hunain yn ffactor oedd yr un mor bwysig. Arweiniodd gwrthryfeloedd yn y trefedigaethau at sicrhau cefnogaeth ym Mhrydain i roi diwedd ar gaethwasiaeth.


Ym 1834, diddymwyd caethwasiaeth ar draws y rhan fwyaf o Ymerodraeth Prydain, ond parhaodd mewn llawer o lefydd a gwledydd ledled y byd.




© Amgueddfa Cymru


▲ *Medal gwrth-caethwasanaeth*

© Amgueddfa Cymru




▲ *Cynhyrchwyd y poster hwn yn Abertawe ar gyfer taith ddarlithio gan gaethwas rhydd a oedd yn ymgyrchu dros ddiddymu caethwasiaeth yn Unol Daleithiau America. Mae'n defnyddio copi bras o ddelwedd "caethwas yn penlinio" Josiah Wedgewood o 1788.*

Trodd llawer o'r cymdeithasau gwrth-gaethwasiaeth lleol a sefydlwyd ledled Cymru yn ystod yr ymgyrchoedd diddymu eu sylw at fater rhyddhau pobl gaeth yn yr Unol Daleithiau. Trefnodd pobl Cymru gyfarfodydd protest a chyflwyno deisebau i Senedd San Steffan i gefnogi diddymu'r fasnach yn yr Unol Daleithiau. Daeth nifer o bobl gaeth oedd ar ffo, gan gynnwys Henry Box Brown, Frederick Douglass a William Craft, ar ymweliad â Chymru gan adrodd straeon am eu profiadau o gaethwasiaeth wrth gynulleidfaoedd ledled y wlad.



MR. JOHN BROWN,

*A Man of Colour, from the State of Georgia,*

**When he will detail his experience of American Slavery and wonderful escape.**

He is noted for his object, and supported by People of all Denominations. A number of testimonials from influential Gentlemen may be seen on application.

Drawings will be exhibited showing his escape, capture, and punishment: he will also appear in his horns and bells, such as are worn by recaptured slaves.

Mr. J. B. will recite the sufferings he endured under the hands of Dr. Hamilton, who practiced upon him for experiments; one of which was to put him down into a burning hot pit dug in the earth, and almost deprived him of respiration, to try the strength of his constitution,—the manner of which process he will fully demonstate to the satisfaction of the audience, by burning a portion of atmospheric air in their presence. He will also introduce his Magic Bottle, showing the pressure of the Atmosphere; he will explain the reason why a Coloured Man can stand a greater degree of heat than a White Person.

*Doors open at Seven o'Clock; the Chair to be taken at Eight o'Clock.—Admission: Front Seats, 6d.; Back Seats, 3d.; Children and Schools, Half-price. Tickets may be had of* at the Entrance

W. MORRIS, PRINTER AND STATIONER, STAMP-OFFICE, HIGH-STREET, SWANSEA.

© Amgueddfa Cymru

▲ *Darn o'r poster*

Yn yr Unol Daleithiau, roedd ymsefydlwyr o Gymru ar y rheng flaen yn y frwydr dros ddiddymu caethwasiaeth. Un enghraifft oedd Robert Everett, gweinidog gyda'r Annibynwyr o Sir y Fflint, a ymfudodd i Utica, Efrog Newydd ym 1823. Everett oedd yn gyfrifol am ysgogi barn yn erbyn caethwasiaeth ymhlith y gymuned Gymreig drwy ei gyhoeddiadau 'Y Cenhadwr Americanaidd' ac 'Y Dyngarwr'.

Ar ddiwedd Rhyfel Cartref America ym 1865, diddymodd Cyngres America gaethwasiaeth yn yr Unol Daleithiau.




© Amgueddfa Cymru

▲ *Medal gwrth-caethwasanaeth*

AMGUEDDFA
CYMRU


# Traed mewn Cyffion

## Cymru a Chaethwasiaeth

Mae rhagor o adnoddau adar [dudalennau Addysg gwefan Amgueddfa Cymru].

**amgueddfa.cymru/dysgu/**




Mwy o adnoddau dysgu am hanes caethwasiaeth a Chymru